

CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS

# POLISI LLYWODRAETHIANT AMGYLCHEDDOL A CHYMDEITHASOL (ESG)

Amdanom ni 2

Datganiad Cenhadaeth ESG 3

Ein Rhychwant ESG 3

Ein Polisïau ESG 4

Llywodraethiant: Tracio ein cynnydd 5

# AMDANOM NI

Crëwyd Cyrchfan Wildfox gan bobl sy'n frwd dros ddarparu gwyliau cyffrous, ymlaciol sy'n rhoi cyfle i gymdeithasu. Rydym yn esblygu gyda'r genhedlaeth nesaf o geiswyr antur sy'n chwilio am brofiadau bythgofiadwy, dro ar ôl tro. Ein nod yw darparu un o'r dewisiadau ehangaf o weithgareddau, sy'n gyfleus i chi, gan gyfoethogi'r profiad i'r eithaf.

Yn ôl Martin Bellamy, Prif Swyddog Gweithredol Cyrchfan Wildfox:

"Yn bennaf oll, rydym ni'n cefnogi'r cysyniad o wyliau gartref, a'n cenhadaeth yw darparu'r profiad antur dilys gorau i bob un o'n cwsmeriaid, gyda chynaliadwyedd wrth wraidd hynny."

Mae Cyrchfan Wildfox yn ymwybodol o'r effaith gymdeithasol, economaidd ac ecolegol a gaiff eu cyrchfannau ar yr amgylchedd a'r bobl sy'n byw yno. Maent yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau hyn a helpu i lunio eu dyfodol – mewn dull cadarnhaol a chynaliadwy. I'r rhai sy'n chwilio am hwyl a dihangfa, i'r rhai sy'n chwilio am rywbeth mwy dwys i brofi'u cryfder a'u stamina – fe'i cewch yng Nghyrchfannau Wildfox.

Bydd ein cyrchfan gyntaf yng Nghwm Afan, De Cymru, yn agor yn 2027 a hwn fydd y cyntaf o ddwy gyrchfan wyliau yn y DU.

Fel cwmni, mae Cyrchfan Wildfox wedi llunio polisi Llywodraethiant Amgylcheddol a Chymdeithasol (ESG) i nodi ein hymrwymiadau corfforaethol, ac i lywio'r busnes a'i weithgareddau yn eu cyfanrwydd.

Mae'r ESG yn arbennig o bwysig o ran llywio'r strategaeth datblygu a gweithredu, a chyfeirio camau gweithredu, drwy ein tîm ehangach a'n hymgynghorwyr, ac i'r gymuned.

Fel prosiect datblygu, bydd gan Gyrchfannau Wildfox agwedd dryloyw at yr ESG a chamau gweithredu, a fydd yn llywio'r gwaith o gyflawni ac adrodd er mwyn cyfathrebu cynnydd.

Mae ein Polisi ESG yn diffinio ein proses tuag at roi'r dyfodol ar lwybr carlam, yn naturiol ac mae'n rhoi rhychwant i weithredu.

# DATGANIAD CENHADAETH ESG

## EIN CENHADAETH

Creu gwaith da a thwf economaidd cynhwysol law yn llaw â gweithredu er budd yr hinsawdd, ac ar yr un pryd gyfrannu at y casgliad ehangach o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

## EIN TAITH

Ein hymagwedd yw meithrin arloesedd, prosesau a systemau carbon isel yn y datblygiad i alluogi preswylwyr a chymunedau'r dyfodol i rannu ein dyheadau. Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud y mwyaf o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y newid i economi ddi-garbon. Rydym ar daith i beri i hyn ddigwydd, ac ar fyrder. Bydd ein cenhadaeth yn parhau i ysgogi canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol cadarnhaol.

# RHYCHWANT EIN ESG


Rydym wedi blaenoriaethu ein polisi llywodraethiant amgylcheddol a chymdeithasol erbyn y twf glân a chynhwysol y bydd Cyrchfan Wildfox yn ei gyflawni ac yn y modd ble gellir cael yr effaith gymdeithasol fwyaf.

Mae ein proses o flaenoriaethu wedi'i llywio drwy asesu'r effaith a'r manteision y bydd Cyrchfan Wildfox yn eu darparu i bobl a'r amgylchedd ar draws ein cadwyn werth. Gan ddefnyddio Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGau y Cenhedloedd Unedig) fel fframwaith, rydym wedi nodi 12 nod sylfaenol y credwn y bydd gan y broses cynllunio a datblygu dylanwad drostynt.

Mae ein cwmpas ESG yn ceisio ysgogi'r arfer orau wrth weithredu, mesur, monitro a gwirio yn erbyn 12 nod Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Ein pum maes buddsoddiad blaenaf yw:

- Llesiant a Chynhwysiant
- Ynni Glân
- Trafnidiaeth Lân
- Digidol; ac
- Adnoddau Naturiol




## LLESIANT A CHYNHWYSIANT

Gyrrir y cynllun gan benderfyniadau buddsoddi a ganolir ar bobl. Mae ein strategaeth yn ceisio galluogi cyfuno bywyd a gwaith a mynediad agored i bawb, adeiladu cyfoeth meddyliol fel ased y rhoddir gwerth arno, cynyddu hunan-ymwybyddiaeth a rheolaeth.

## YNNI GLÂN

Bydd Grŵp Cyrchfan Wildfox yn gwreiddio isadeiledd i alluogi defnyddio ynni carbon isel a charbon sero

## ADNODDAU NATURIOL

Canolbwyntio ar dderbyniadau cyfalaf naturiol sy'n mwyhau'r manteision i'r blaned yn ogystal ag elwa o fuddsoddiadau ym myd natur.

## TRAFNIDIAETH LÂN

Drwy gysylltu manteision daearyddol isadeiledd ynni a data, bydd Grŵp Cyrchfan Wildfox yn creu'r ysgogiad i alluogi'r newid i symudiad di-garbon.

## CHWYLDRO DIGIDOL

Bydd Grŵp Cyrchfan Wildfox yn chwarae rhan hanfodol mewn galluogi i Gastell-nedd Port Talbot 'godi'r gwastad' yn yr economi ddigidol, gan greu swyddi drwy ddenu partneriaid arloesol a blaengar.

# EIN POLISÏAU ESG

**Diffinnir ein proses gan set o bolisïau ESG sy'n llywio buddsoddiad i gyfeiriad twf glân a chynhwysol. Datblygwyd y polisïau i fod yn sail i ystod o strategaethau a fydd yn cyflenwi Cyrchfan Wildfox drwy'r broses gynllunio ac adeiladu drwodd i weithredu cyfleuster o safon ryngwladol.**

## Polisïau Amgylcheddol

- Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr: Bydd Grŵp CyrchfanWildfox yn cyd-fynd ag agenda Di-Garbon Net y Llywodraeth drwy gynllunio a chyflawni'r isadeiledd a'r amodau economaidd i alluogi twf glân
- Bioamrywiaeth: Bydd Cyrchfan Wildfox yn buddsoddi mewn strategaeth fioamrywiaeth ac yn ei chyflwyno er mwyn cynorthwyo a galluogi cynnydd mewn cyfalaf naturiol.
- Atal llygredd: Bydd Cyrchfan Wildfox yn gwneud yn fawr o werth economaidd sy'n deillio o dir llwyd diraddiedig, heb greu niwed amgylcheddol
- Cofleidio ac arddangos y '4R': Cyflwyno strategaeth leihau, ailddefnyddio, adennill ac ailgylchu gynhwysfawr o'r llwyfan adeiladu hyd at weithredu'r gyrchfan antur

## Polisïau Cymdeithasol

- Monitro Gwerth Cymdeithasol: Bydd Cyrchfan Wildfox yn diffinio llwyddiant trwy gyfrwng metrigau gwerth cymdeithasol clir. Bydd hyn yn cynnwys nodi metrigau i'w cynnwys – er enghraifft, ysbrydoli cyfleoedd gyrfa newydd, nodi anghenion sgiliau ar gyfer meddianwyr newydd, cryfhau cydnerthedd cymunedol ac ymgysylltu'n gadarnhaol â phobl ifanc.
- Sgiliau ac Addysg: Bydd Cyrchfan Wildfox yn cefnogi ymgysylltiad ag ysgolion lleol, prentisiaethau a nawdd gyda'n cadwyn gyflenwi
- Siarter Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Leol: byddwn yn sicrhau cyfleoedd hirdymor i gymunedau
- Buddsoddiad Cymdeithasol: Bydd Cyrchfan Wildfox yn buddsoddi mewn gwytnwch personol gan weithio gyda'n partner, Bounce Forward, ac yn ystyried mecanweithiau i gyfeirio a sicrhau gwerth cymdeithasol

## Polisïau Llywodraethiant

- Uwch-gynllun digidol: bydd hwn yn sail i gasglu data i brofi ein canlyniadau llwyddiannus yn erbyn ein hymrwymiadau ESG.
- Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig: Bydd Gravity yn meincnodi ac yn adrodd yn erbyn ein 12 nod a amlygwyd
- Gwirio annibynnol: byddwn ni'n defnyddio meincnodi'r diwydiant, fel Seilwaith BREEAM, Safonau WELL a safonau sydd ar gael i'r cyhoedd fel Rheoli Carbon mewn Isadeiledd PAS 2080 i ddilysu ein gweithredoedd

# POLISÏAU ESG

**Bydd ein Siarter Cadwyn Gyflenwi'n mesur, yn monitro ac yn ein galluogi i warantu ein metrigau a amlygwyd.**



# LLYWODRAETHIANT: TRACIO EIN CYNNYDD

Bydd mesur a gwirio twf glân yn cefnogi ein taith. Rydym wedi sefydlu fframwaith adrodd a fydd yn cael ei ddefnyddio i arwain gweithrediad ein Polisi ESG ac yn ein galluogi i adrodd yn erbyn ein hymrwymiadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGau) y Cenhedloedd Unedig.


Bydd hyn yn cael ei ategu drwy'r gweithdrefnau cynllunio a thrwy ein hymgysylltiad â'r gadwyn gyflenwi.

Dyma ddechrau ein taith i gefnogi a chyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer y cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

Mae Cyrchfan Wildfox wedi ymrwymo i rannu ein taith, a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i adeiladu Ymwybyddiaeth SDG a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd. Yn bwysig, bydd gofyn i'n cadwyn gyflenwi rannu ein taith trwy benodiad.

Bydd ein llwyddiant yn cael ei dracio'n ddigidol drwy fapio ein cenadaethau a'n blaenoriaethau. Bydd hyn yn ein galluogi i gofnodi a dilysu ein gweithredoedd a'n hymrwymiadau a wnaed hyd at gyflawni a gweithredu.

Cyhoeddir adroddiad blynyddol i gyfathrebu cynnydd.





Cyrchfan Wildfox
Tŷ Kimberley
Rhodfa Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd CF14 5DX

info@wildfoxresorts.com

CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS